

Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

(Yn gywir ar 31 Rhagfyr 2021)

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Annibyniaeth a Gwrthrychedd	2
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	2
Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd	3
Gweithgareddau Presennol	3
Adnoddau	7
Cynllun Blynyddol	8
Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (Ch3 2021/22)	10
Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch3 2021/22)	12
Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol	12
Gwerth Ychwanegol	12
Perfformiad	13
Gweithredu Cynllun Archwilio	14
Argymhellion	15
Casgliad	16
Atodiad A	Statws Adroddiad ar 31 Rhagfyr 2021
Atodiad B	Cynllun Archwilio
Atodiad C	Crynodeb o'r Argymhellion
Atodiad D	Argymhellion agored coch a choch / melyn
Atodiad E	Argymhellion coch a choch / melyn wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor

Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Mewnol. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Cymeradwywyd Cynllun Archwilio 2021/22 ar 23 Mawrth 2021. Mae'r Cynllun yn rhoi fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, wrth ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o weithgareddau archwilio, canfyddiadau a chynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio fel ar 31 Rhagfyr 2021.

1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Rheolwr Archwilio. Yn unol â darpariaethau Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (1100), cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio. Ni fu unrhyw achosion o amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd.

1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cwblhaodd archwilwyr eu hadolygiadau personol diwedd blwyddyn a ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2021/22 yn unol â gofynion corfforaethol. Cyn trafod perfformiad, cwblhaodd yr archwilwyr eu hasesiad sgiliau mewn perthynas â Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM).

Llywiodd canlyniadau adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), y cydnabuwyd llinell sylfaen gyffredinol gref o wybodaeth a sgiliau ohoni ar draws y tîm archwilio.

2. Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

Mae'r crynodeb archwilio canlynol yn ymdrin â'r rhaglen waith ar gyfer 2021/22, a'r gweithgareddau, yr adnoddau, y canfyddiadau a'r mesurau perfformiad cysylltiedig fel ar 31 Rhagfyr 2021.

2.1 Gweithgareddau Presennol

Yn ystod y flwyddyn hyd yma, blaenoriaethau a dull gweithredu'r tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a dechrau cyflawni ymrwymïadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Cynlluniau gweithredu hunanasesiad rheoli risg (HRhR) ysgolion

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r ymarfer Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR) a gwblhawyd tua diwedd blwyddyn ariannol 2020/21 a thrwyddo bu gofyn i bob ysgol ymateb i set fanwl o ddatganiadau rheoli mewnol, nodi camau gweithredu er mwyn gwella os bydd unrhyw fylchau, a darparu portffolio o dystiolaeth i gefnogi'r honiadau a wnaed yn eu ffurflenni.

Yn dilyn yr ymarfer hwn ac adroddiadau cysylltiedig i fforymau'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr, cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer yr ysgolion a samplwyd ac mae adroddiad cryno wedi'i gyhoeddi i'r Cyfarwyddwr Addysg. Ar ddiwedd chwarter tri, mae bron i 80% o'r cynlluniau gweithredu wedi'u cwblhau gyda champau gweithredu wedi'u cytuno ym mhob ysgol. Ceisir ymatebion i'r cynlluniau gweithredu sy'n weddill er mwyn cwblhau'r ymarfer. Ochr yn ochr ag archwiliadau ysgol unigol sy'n cael eu cwblhau eleni, bydd gweithredu ar argymhellion drwy'r ymarfer HRhR yn cael ei dracio, ei fonitro a'i adrodd i gefnogi amgylcheddau rheoli effeithiol ar draws ysgolion.

Gwasanaethau ymgynghori sy'n gysylltiedig â COVID-19

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Yn y flwyddyn ariannol hyd yma, mae ymgynghoriaeth archwilio a gwrth-dwyll wedi'i chynnal mewn perthynas â'r cynlluniau grant canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol
- Cronfa Cadernid Economaidd
- Cronfa Adferiad Ddiwylliannol Cymru (rownd 2) – Cymorth Llawrydd
- Cronfa Cadernid Economaidd (Estyniad)
- Cronfeydd Twf Caerdydd
- Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf

Cwblhawyd yr archwiliadau

Mae nifer o ddigwyddiadau archwilio sicrwydd hefyd wedi dechrau, ac mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud yn bennaf ar sail bwrdd gwaith.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'r statws adrodd fel ar 31 Rhagfyr 2021, lle y cwblhawyd 42 o ddigwyddiadau archwilio newydd hyd at y cam allbwn drafft o leiaf a 21 o ddigwyddiadau archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn hyd yn hyn isod.

Ffigur 4. Allbynnau a barn archwilio (ar 31 Rhagfyr 2021)

Statws	Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd	Barn				
		Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol ac angen gwelliant mawr	Anfoddhaol	Ni roddwyd barn
Drafft	14	1	7	3	1	2
Terfynol	49	3	24	12	0	10
CYFANSWM	63	4	31	15	1	12
	42	Digwyddiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd				
	21	Ymgysylltiadau Archwilio a Gadarnhawyd o 2020/21				

Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae un allbwn archwilio drafft wedi'i gyhoeddi gyda barn anfoddhaol ac mae un adroddiad drafft wedi darparu barn annigonol ac angen gwelliant mawr. Ceir gwybodaeth am ganfyddiadau'r archwiliadau hyn yn Adran 2.4 – Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg.

Ffigur 5. Allbynnau a barn archwilio 2021/22 (ar 31 Rhagfyr 2021)

Rhif	Digwyddiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
1.	Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd	Effeithiol
2.	Rhenti Tai	
3.	Adnoddau – Incwm a Dyledwyr	

Rhif	Digwyddiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio	
4.	Digartrefedd - Llety Dros Dro	Effeithiol gyda lle i wella	
5.	Addysg - CTY - Adolygiad o Fand B		
6.	CTA - Incwm a Dyledwyr		
7.	Taliadau Cydnabyddiaeth a Lwfansau Aelodau		
8.	Ysgol Gynradd Marlborough		
9.	Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog		
10.	Absenoldeb Arbennig		
11.	Rheoli'r Trysorlys		
12.	Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol - Sicrwydd Cyn Contract		
13.	Caerdydd Ddwyeithog		
14.	Bargen Ddinesig 2020/21		
15.	Polisi Disgyblu		
16.	Cardiau Prynu		
17.	Archwiliad o'r Crud i'r Bedd		
18.	Archifau Morgannwg		
19.	Oedolion, Tai a Chymunedau - Sicrwydd Cyn Contract		
20.	Llyfrgelloedd		
21.	Grantiau'r Cyngor Prydeinig - Gwaith Dilydol		
22.	Teithio Consesiynol		
23.	Adolygiadau Sefydliadol		Annigonol ac angen gwelliant mawr
24.	Cyd-Wasanaeth Offer		
25.	Taliadau i Bobl sy'n Gadael Gofal		
26.	Datblygu Economaidd - Sicrwydd Cyn Contract		
27.	Casgliadau Gwastraff		
28.	Addysg a Dysgu Gydol Oes - Sicrwydd Cyn Contract		
29.	Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd - Sicrwydd Cyn Contract		
30.	Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	Anfoddhaol	
Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn'			
31.	Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Ymgynghoriaeth ardystio, cyngor ac arweiniad.	
32.	Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd		
33.	Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg		

Rhif	Digwyddiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio	
34.	Ymgynghoriaeth Gwasanaeth a Phrosesau – Grantiau Llywodraeth Cymru		
35.	Grant Dinasoedd Di-si		
36.	Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 20/21		
37.	Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd 20/21		
38.	Grant Gwella Addysg 20/21		
39.	HRhR Taliadau Credydwyr 2021/22		Risg Rheoli Hunanasesiadau
40.	HRhR Cyflogres 2021/22		
41.	Menter Twyll Genedlaethol	Ymarfer gwrth-dwyll paru data	
42.	Sicrwydd Cyn Contract – Pobl a Chymunedau	Sicrwydd drwy ymrwymadau cyfarwyddiaeth ehangach	
Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol			
43.	Dilysiad ar Sail Risg	Effeithiol	
44.	Archwiliad o swyddogaethau craffu	Effeithiol gyda lle i wella	
45.	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol		
46.	Gwaith archwilio dilynol - Contractau Rheoli Gwastraff		
47.	Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd 2019/20		
48.	Taliadau Credydwyr – profion yn ystod y flwyddyn 2020-21		
49.	Treth Gyngor		
50.	Budd-dal Tai / Lwfansau Tai Lleol / Gostyngiad y Dreth Gyngor		
51.	Parhad Busnes TG		
52.	Archwiliad dilynol - San Pedr		
53.	Trethiant		
54.	Rheoli Risg Cyfarwyddiaeth		
55.	Rheoli Risg Rhaglenni a Phrosiectau		
56.	Porthdy		Annigonol ac angen gwelliant mawr
57.	Gwaith archwilio dilynol - tipio anghyfreithlon		
58.	Ailgylchu mewn CAGCau		
59.	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Cuthbert		
60.	Diwydiant Cardiau Talu		
61.	Bws Caerdydd - perthynas lywodraethu â Chyngor Caerdydd		
62.	Rheoli a Monitro Contractau		
63.	Addysg – Rheoli Asedau		

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hyn fel a ganlyn:

Ffigur 6. Archwiliadau cyflawn heb farn sicrwydd (ar 31 Rhagfyr 2021)

Archwiliad	Sylwadau
Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon.
Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd	
Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg	
Ymgynghoriaeth Gwasanaeth a Phrosesau – Grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19	Cydymffurfio, rheolaeth ac arweiniad gwrth-dwyll
Grant Dinasoedd Di-si	Ardystio grant
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2020/21	
Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd 2020/21	
Grant Gwella Addysg 2020/21	
HRhR Taliadau Credydwyd 2021/22	Datblygu a chydlynu Risg Rheoli
HRhR Cyflogres 2021/22	Ymarfer Hunanasesu
Menter Twyll Genedlaethol	Ymarfer gwrth-dwyll paru data
Sicrwydd Cyn Contract – Pobl a Chymunedau	Dim dyfarniadau contract diweddar i'w harchwilio, felly mae sicrwydd i'w gyflawni drwy sampl o gysylltiadau sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau a'r Gwasanaethau Plant (o dan bortffolio'r Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn Atodiad A.

2.2 Adnoddau

Roedd llai o gapasiti yn y tîm yn ystod chwarter tri. Dychwelodd aelod o staff yn raddol o salwch hirdymor, ond bu dau achos o salwch hirdymor arall, a chan fod y tîm yn fach cafwyd effaith ar gyflawni'r cynllun archwilio.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun archwilio, comisiynwyd dau ddigwyddiad archwilio gyda darparwr allanol o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Rheolwr Archwilio. Bydd yr archwiliadau o lywodraethu gwybodaeth a chyfrifiadura cwmwl yn cael eu cynnal yn ystod cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau ym mis Chwefror 2022 i gefnogi'r gwaith sicrwydd a gyflawnir yn uniongyrchol gan y tîm mewnol. Cyn comisiynu'r archwiliadau, cyhoeddwyd hysbysebion asiantaeth, ac archwiliwyd opsiynau secondiad drwy

Rwydwaith Prif Archwilwyr Awdurdodau Lleol Cymru, ond ni chanfuwyd unrhyw ymgeiswyr addas.

Roedd y data taflen amser yn cynnwys 995 diwrnod taladwy ar draws y tîm fel ar ddiwedd chwarter tir, yn erbyn cynllun pro-rata o 1,226 diwrnod. Y prif resymau dros y gwahaniaeth oedd swydd Prif Archwilydd wag yn ystod llawer o chwarter un, salwch hirdymor, naw wythnos o waith cyfrifeg gan hyfforddai CIPFA fel rhan o'i ddatblygiad, a mwy o amser wedi'i godio parthed gweithgareddau datblygu a chyfarfodydd cyffredinol nag y disgwyliwyd ar draws y tîm, yr oedd rhai ohonynt yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn mentrau lles.

Mae un archwilydd yn parhau i fod â chyllid astudio ar waith, ar gyfer y Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA) gydag ISACA.

2.3 Cynllun blynyddol

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2021/22 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021. Mae'r Cynllun Archwilio blynyddol wedi'i gynllunio i fod o faint digonol i alluogi penderfyniadau ar amseriad a blaenoriaethu digwyddiadau archwilio wrth i bob blwyddyn fynd yn ei blaen. Bob blwyddyn mae cyfran o'r Cynllun Archwilio yn cael ei thargedu i'w chyflawni, a'r targed ar gyfer 2021/22 yw 70%.

Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Mae'n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Tachwedd 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ohirio 29 digwyddiad archwilio o Gynllun Archwilio 2021/22 ac ychwanegu archwiliad rheoli perfformiad corfforaethol. Ni effeithiodd y cam gweithredu hwn ar y targed perfformiad, ond yn hytrach nododd flaenoriaethau strategol, gan ganolbwyntio ar ddarparu'r holl archwiliadau arfaethedig o systemau sylfaenol, lefel uchel o sylw mewn meysydd llywodraethu craidd a lledaeniad o systemau lefel cyfarwyddiaeth. Roedd y Cynllun Archwilio diwygiedig yn cynnwys 75% o'r archwiliadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar ddechrau'r flwyddyn. Y targed o hyd oedd cyflawni 70% o'r cynllun gwreiddiol.

Mae cyflawni Cynllun Archwilio 2021/22 yn gymesur is na'r targed ar ddiwedd chwarter tri, ac mae'r rhesymau'n ymwneud yn bennaf ag adnoddau fel yr amlinellir yn adran 2.2 'Adnoddau' a dangosir y sefyllfa yn adran 3.2 'Perfformiad'.

Gwnaed mwy o gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau archwilio allweddol nag y mae'r ystadegau archwilio yn ei awgrymu:

- Gwnaed gwaith cynllunio sylweddol ar gyfer adolygu'r gwaith cynllunio adfer cyfarwyddiaethau gyda phob tîm rheoli cyfarwyddiaeth. Datblygwyd offeryn asesu ar ôl trafod gyda'r rheolwyr yn Perfformiad a Phartneriaethau, uwch swyddogion a chydweithwyr ehangach yn Archwilio Cymru.
- Mae cyfran sylweddol o'r gwaith mapio sicrwydd wedi'i gwblhau, a fydd yn dod i ben yn chwarter pedwar gan arwain at gynllun arfaethedig sy'n seiliedig ar risg ar gyfer y flwyddyn i ddod yr ymgysylltir arno â phob Cyfarwyddwr cyn yr Uwch Dîm Rheoli llawn a chyflwyno chais am gymeradwyaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2022.
- Mae nifer o archwiliadau ar gam gwaith maes gweithredol neu sicrwydd ansawdd, a darperir manylion amdanynt yn y tabl isod. Bwriedir cyhoeddi adroddiadau drafft ar gyfer yr archwiliadau hyn yng nghramau cynnar chwarter pedwar.

Ffigur 7. Statws archwiliadau parhaus

Rhif	Archwiliad	Statws
1.	Ysgol Bro Edern	Adolygu / Sicrhau Ansawdd
2.	Cytundebau Adran 106	Adolygu / Sicrhau Ansawdd
3.	Prosesau Chwythu'r Chwiban	Gwaith Maes
4.	Teleofal	Gwaith Maes
5.	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yng Nghaerdydd	Gwaith Maes
6.	Ysgol Gynradd Llanedern	Gwaith Maes
7.	Gwerth am Arian mewn Mentrau Digidol	Gwaith Maes
8.	Taliadau Credydwy'r – Profi yn Ystod y Flwyddyn	Gwaith Maes
9.	Cyflogres – Profi yn Ystod y Flwyddyn	Gwaith Maes

Dylid nodi hefyd bod cynllunio'n mynd rhagddo'n dda ar gyfer dau archwiliad thematig o 'reoli asedau ysgolion' ac 'iechyd a diogelwch ysgolion' y mae'r ddau ohonynt yn cyfrif am bum uned archwilio (sy'n cynrychioli nifer yr ysgolion a samplwyd) o dan bob astudiaeth. Disgwylir i'r archwiliadau hyn gael eu cynnal yn ystod chwarter pedwar.

Mae pob rhan o'r cynllun archwilio yn cael ei datblygu, er bod y tîm, wrth ddyrannu a chyflawni gwaith, yn ymwybodol o'r argyfwng presennol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran gofynion gwasanaethau ac argaeledd a blaenoriaethau swyddogion a rheolwyr allweddol. Mae Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor wedi ystyried risgiau cysylltiedig yn ystod y misoedd diwethaf a gwnaed ceisiadau corfforaethol am gymorth brys ar gyfer parhad gwasanaethau rheng flaen o fewn y gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion, ac i wirfoddolwyr gefnogi darpariaethau preswyl a darpariaethau seibiant byr. Bydd gofal arbennig yn cael ei gymryd yn ystod chwarter pedwar wrth i archwiliadau gael eu datblygu, o ran cydbwysu blaenoriaethau gwasanaethau a sicrwydd archwilio, a bydd angen monitro a rhoi sylw parhaus a chraff i'r sefyllfa.

Cwblhawyd pedwar ar ddeg o archwiliadau statws allbwn drafft yn ystod chwarter tri, a chafodd deuddeg ohonynt farn sicrwydd 'effeithiol', neu 'effeithiol gyda lle i wella'. Er gwybodaeth a sicrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae canfyddiadau drafft archwiliadau â barn 'annigonol ac angen gwelliant mawr' wedi'u cynnwys yn adran 2.4 – canfyddiadau critigol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a darperir briff cryno gweithredol ar gyfer unrhyw adroddiad archwilio 'anfoddfaol' unwaith y bydd wedi'i gwblhau gyda'r rheolwyr. Dros y cyfnod adrodd, cyhoeddwyd un adroddiad 'anfoddfaol' drafft, ac un adroddiad 'annigonol ac angen gwelliant mawr'.

2.4 Canfyddiadau critigol neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg (Ch3 2021/22)

Yn ystod chwarter tri, cyhoeddwyd dau adroddiad archwilio gyda barn archwilio anffafriol a rhoddir rhagor o fanylion am y rhain yn y paragraffau isod. Mae'r archwiliadau y cyfeirir atynt isod ar statws drafft, a chaiff y canfyddiadau eu trafod gyda'r rheolwyr, a phan fydd yr archwiliadau wedi'u cwblhau, caiff y farn a'r argymhellion terfynol eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae archwiliad o 'Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd' wedi arwain at farn 'anfoddfaol'. Roedd gan yr ysgol gyllideb diffyg y cytunwyd arni o £878,203 ar gyfer 2021/22 y nodwyd arwyddion o gymorth a her ychwanegol ar ei chyfer yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Nododd yr adroddiad fylchau mewn cyflawnrwydd datganiadau buddiannau, monitro hyfforddiant llywodraethwyr, argaeledd cofnodion is-bwyllgorau, mesurau rheoli risg wedi'u dogfennu mewn achosion lle mae staff i ddechrau gweithio cyn derbyn gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), a'r angen i adolygu a diweddarau polisiâu statudol penodol. Ar lefel weithredol, adroddwyd bod angen gwell goruchwyliaeth a rheolaeth ar reolaeth ariannol

gyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am ddiweddariadau ac archwiliadau cyfrif cronfa breifat yr ysgol yn dilyn cyfuno ysgolion, gwelliannau i lwybr rheoli contractau yr ymrwymwyd iddynt a'r prosesau cysylltiedig a ddilynwyd, cyflawnrwydd cofnodion incwm, a chadw cofnodion a rheoli cardiau prynu. Mae'r Rheolwyr Archwilio wedi cyfarfod â'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Cadeirydd Cyllid i drafod yr adroddiad drafft ac mae cyfres o argymhellion wedi'u codi i'w hystyried gan y rheolwyr. Pan fydd ymateb y rheolwyr wedi'i dderbyn a'r archwiliad wedi'i gwblhau, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad cryno gweithredol ar y canfyddiadau a'r camau gweithredu ar gyfer gwella yn y cyfarfod Pwyllgor dilynol.

Gwnaeth archwiliad o sicrwydd cyn contract yn Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd arwain at farn annigonol ac angen gwelliant mawr. Nododd yr archwiliad berthynas waith dda ac ymgysylltiad â Comisiynu a Chaffael a disgyblaethau proffesiynol eraill, ond roedd bylchau o ran cyflawnrwydd y prosesau a ddilynwyd i sicrhau lefel effeithiol o sicrwydd cyn mynd i gontractau. Nid oedd nifer fach o'r cynlluniau caffael a samplwyd yn cynnwys asesiadau risg. Roedd achosion hefyd lle nad oedd addasrwydd, gallu a chapasiti'r cyflenwr a fetio ariannol wedi'u cwblhau yn unol â chanllawiau corfforaethol. Roedd rhai bylchau o ran cwblhau prosesau corfforaethol mewnol mewn perthynas â materion yn cynnwys iechyd a diogelwch, y Gymraeg, a gofynion caffael cymdeithasol-gyfrifol. Mewn un achos, nid oedd nifer fach o dendrau / cyflenwad sengl wedi derbyn cymeradwyaeth Comisiynu a Chaffael, ac nid oedd rhai dogfennau caffael craidd wedi'u storio ar y system Proactis.

Mae'n braf adrodd bod adroddiad dilynol mewn perthynas â Grantiau'r Cyngor Prydeinig wedi arwain at farn 'effeithiol gyda lle i wella', y rhoddodd yr archwiliad gwreiddiol farn archwilio 'anfoddhaol' arno, a darparwyd y crynodeb gweithredol cysylltiedig i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2021. Bu gwelliannau yn y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer grantiau'r Cyngor Prydeinig. Roedd datganiadau buddiannau wedi'u cofnodi ac roedd y Cyfarwyddwr wedi cyfleu cyfarwyddyd rheoli cynhwysfawr i atgyfnerthu gofynion archwilio. Cydnabyddir na fu unrhyw deithiau ers i'r archwiliad gwreiddiol gael ei gynnal, ond cymerwyd camau i wella dogfennaeth a phrosesau cysoni. Bu newid hefyd yn strwythur rheoli a chyfansoddiad y tîm CYRh ac mae'r tîm wedi symud i swyddfa yn Neuadd y Sir yn ddiweddar. Mae sefydliad trydydd parti a arferai weithredu o safle'r Cyngor wedi adleoli ac nid oes ganddo gysylltiad â'r Cyngor na'i staff. Mae'r cerdyn prynu wedi'i gau, er y gallai fod angen cardiau newydd pan fydd teithiau'n gallu

ailldechrau. Mae'r gyfarwyddiaeth wedi gweithio gyda Cyfrifeg a Llywodraethu Gwybodaeth i wella prosesau trin data a gweinyddu ariannol.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch3 2021/22)

Nid oedd unrhyw archwiliadau gwerth am arian wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod adrodd, er bod archwiliad gwerth am arian mewn mentrau digidol yn cael ei ddatblygu ar yr adeg adrodd.

Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy'n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, o fewn yr archwiliadau â barn sicrwydd is, roedd bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael eu bodloni, gyda sylw priodol i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

3. Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol

3.1 Gwerth Ychwanegol

Cynhaliwyd cyfarfodydd Rheoli Perthnasau gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr wrth ddatblygu'r cynllun archwilio yn chwarter pedwar 2020/21. Mae cyfarfodydd Rheoli Perthnasau pellach wedi'u cynnal yn chwarterol eleni, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynllunnir neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio digwyddiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol yn y flwyddyn hyd yma - cyfraddau boddhad uchel - er i un cleient ddweud nad oedd ei archwiliad yn 'ychwanegu gwerth'. Nid oedd yr archwiliad sicrwydd cyn contract yn Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi materion penodol nad oedd y Gyfarwyddiaeth yn ymwybodol ohonynt.

Ffigur 8. Adborth Cleientiaid

	Ardderchog	Da	Boddhaol	Gwael
Cyfathrebu	17	7	3	0
Cyngor	10	13	4	0
Gwerth yr Adroddiad	7	16	4	0
Perfformiad Cyffredinol	13	11	2	0
Canrannau	44%	44%	12%	0%

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (fel ar 31 Rhagfyr 2021), gwnaed 440 o argymhellion, cytunwyd ar 287 ohonynt, ac mae 153 yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio drwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 9. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd

Gradd	Argymhellion a wnaed	Argymhelliad a gytunwyd	Argymhellion sy'n cael eu hystyried
Coch	15	5	10
Coch / melyn	166	101	65
Melyn / gwyrdd	235	166	69
Gwyrdd	24	15	9
CYFANSWM	440	287	153

3.2 Perfformiad

Amlinellir blaenoriaethau a dull gweithredu'r tîm archwilio yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Cyfredol'). Mae Ffigur 10 yn cynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau ar gyfer 2021/22, ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer 2020/21.

Amlinellir y prif resymau pam mae'r gwasanaeth archwilio yn gweithredu ar gapasiti is yn ystod y chwarter yn 2.2 ('Adnoddau'). Ar ddechrau'r flwyddyn, pennwyd targed arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Archwilio ar 70% a'i integreiddio i brosesau cynllunio archwilio a rheoli perfformiad. Ystyriwyd bod y targed yn ymestynnol ac yn gyraeddadwy, a salwch hirdymor sydd wedi effeithio'n bennaf ar y llithriad yn erbyn y mesur hwn yn y flwyddyn hyd yma, yn ogystal â mwy o amser datblygu / mentrau lles a ddefnyddir gan y tîm. Mae'r targedau o ddiwrnodau ac archwiliadau archwilio-gynhyrchiol fesul CALI yn cyd-fynd â chanran darged y cynllun archwilio, ac mae perfformiad yn is na'r targed yn bennaf oherwydd yr un ffactorau.

Mae'r tîm yn gweithio gyda'r rheolwyr i gytuno ar gamau archwilio ac, er bod perfformiad mewn archwiliadau terfynol wedi gwella yn ystod chwarter tri, mae angen cynnydd pellach i gyrraedd y targed a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Ochr yn ochr â chynyddu nifer yr adroddiadau drafft a gyhoeddwyd yn ystod gweddill y flwyddyn, bydd cynnydd o ran cwblhau archwiliadau yn parhau i gael ei fonitro'n agos a'i gyfathrebu ar lefelau rheoli'r archwilydd a'r gyfarwyddiaeth.

Er bod canran yr allbynnau drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos i gwblhau gwaith maes wedi gostwng yn ystod chwarter tri, mae'r perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yma

ar y lefel darged, a bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n agos er mwyn sicrhau adroddiadau prydlon a sicrwydd rheoli amserol.

Canran yr argymhellion archwilio a weithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni yw 69% yn erbyn targed o 80% ar gyfer y flwyddyn yn gyffredinol. Dangosodd y mesur canlyniadau, sy'n caniatáu am lithriad o bythefnos waith o'r targed a osodwyd ar gyfer camau gweithredu fel y'u cyflawnwyd, welliant bach yn erbyn y chwarter blaenorol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn mynychu'r Uwch Dîm Rheoli i gyflwyno'r traciwr argymhellion yn gyfnodol, lle trafodir perfformiad a phwysigrwydd gweithredu camau y cytunwyd arnynt yn amserol.

Ffigur 10. Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer 2021-2022 (hyd yma)

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad 2020/21	Targed 2021/22	Canlyniad Ch1	Canlyniad Ch2	Canlyniad Ch3
Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd	55%	70%	13%	24%	36%
Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALI	145	150	32.56	64.29	104.46
Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALI	8.51	9	1.64	3.4	5.74
Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflwynwyd o fewn pedair wythnos* *newidiwyd y dangosydd o fewn 'chwe wythnos' o 2021/22	97%	90%	100%	100%	90%
Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amser cytunedig	69%	80%	69%	64%	69%

3.3 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

Mae Adrannau 2.1 – Gweithgareddau Cyfredol a 2.3 – Cynllun Archwilio yn nodi manylion perthnasol, a dangosir y sefyllfa bresennol ar gyfer Cynllun Archwilio llawn 2021/22 yn Atodiad B – Cynllun Archwilio.

3.4 Argymhellion

Er mwyn cefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu'r Pwyllgor, mae Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r holl gamau archwilio agored, mae Atodiad D yn cynnwys manylion yr holl argymhellion agored coch a choch/melyn ac yn cynnwys yr ymateb rheoli presennol. Mae Atodiad E yn cynnwys yr argymhellion coch a choch/melyn sydd wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. Rhoddir argymhellion melyn/gwyrdd a gwyrdd i'r Pwyllgor trwy lwybr ar wahân.

Mae'r tabl isod yn dangos yr achosion lle mae dyddiadau gweithredu wedi'u diwygio, fel arfer gan gleientiaid archwilio, ar gyfer archwiliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod fel rhai a ddatryswyd yn llawn (ar 31.12.21).

Ffigur 11. Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws

Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio	Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig	Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith	Camau gweithredu ar agor o hyd
Sylfaenol	15	11	4
Corfforaethol	25	21	4
Allanol a grantiau	8	4	4
Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau	29	12	17
Gwasanaethau Plant	2	2	0
Datblygu Economaidd	26	25	1
Addysg a Dysgu Gydol Oes	70	44	26
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	32	21	11
Pobl a Chymunedau	14	14	0
Adnoddau	33	28	5
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	5	5	0
Rheoli Gwastraff	74	69	5
	333	256	77
Ysgolion	264	205	59
CYFANSWM	597	461	136

DS - Dylid nodi bod y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2021, tra bod atodiadau'r traciwr argymhellion yn dangos y sefyllfa fanwl yn erbyn pob argymhelliad ar y dyddiad agosaf posibl i bob cyfarfod Pwyllgor.

Adroddir ar y sefyllfa yn erbyn argymhellion mewn cyfarfodydd rheoli perthnasau chwarterol i fonitro cynnydd a thargedu trafodaethau ar reoli risg yn effeithiol, ac mae'r Rheolwr Archwilio yn mynychu cyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli yn ystod y flwyddyn i amlinellu a thrafod yr ymateb rheoli.

4. Casgliad

4.1 Crynodeb

Yn ystod y flwyddyn hyd yma, blaenoriaethau a dull gweithredu'r tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a datblygu ymrwymadau sicrwydd targedig o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Roedd llai o gapasiti yn y tîm yn ystod chwarter tri. Dychwelodd aelod o staff yn raddol o salwch hirdymor, ond bu dau achos o salwch hirdymor arall, a chan fod y tîm yn fach cafwyd effaith ar gyflawni'r cynllun archwilio. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun archwilio, comisiynwyd dau ddigwyddiad archwilio gyda darparwr allanol o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Rheolwr Archwilio.

Mae pob rhan o'r cynllun archwilio yn cael ei datblygu, er bod y tîm, wrth ddyrannu a chyflawni gwaith, yn ymwybodol o'r argyfwng presennol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran gofynion gwasanaethau ac argaeledd a blaenoriaethau swyddogion a rheolwyr allweddol.

Bydd ffocws parhaus ar gynyddu cwmpas y Cynllun Archwilio yn chwarter pedwar. Mae nifer o archwiliadau ar gam gwaith maes gweithredol neu sicrwydd ansawdd ar yr adeg adrodd ac mae cynllunio sylweddol wedi'i wneud i ddechrau digwyddiadau archwilio pellach. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gyflawni'r cynllun yn ystod chwarter pedwar.

Mae gan bob archwilydd ddyraniad llawn o waith i'w ddatblygu, yn amodol ar brosesau monitro ac adolygu rheolaidd. Caiff archwiliadau eu dyrannu ar sail sy'n darparu'r sicrwydd a'r gwerth mwyaf, gan gyfyngu ar unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2021/22.

Statws Adroddiad (yn gywir ar 31 Rhagfyr 2021)

Barn Archwilio	Maes Archwilio	Argymhellion Risg Uchel		Statws (os nad yw'n Derfynol)
		Cynigiwyd	Cytunwyd	
Sylfaenol / Uchel				
Effeithiol	Pobl a Chymunedau - Comisiynu a Chaffael (dygwyd ymlaen o 2020/21)			Drafft wedi'i Gyhoeddi
	Adnoddau – Incwm a Dyledwyr			
	Dilysiad ar Sail Risg (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Rhenti Tai			
	Twyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd			
Effeithiol gyda lle i wella	Adnoddau - Iechyd a Diogelwch (dygwyd ymlaen o 2020/21)			Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Gwasanaethau Cymdeithasol - Incwm a Dyledwyr (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Oedolion, Tai a Chymunedau - Sicrwydd Cyn Contract			
	Archwiliad o'r Crud i'r Bedd			
	Cardiau Prynu			
	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Taliadau Credydwyr – Profion yn Ystod y Flwyddyn (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	CTA - Incwm a Dyledwyr			
	Treth Gyngor (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Budd-dal Tai - Lwfans Tai Lleol - Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Parhad Busnes TG (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Addysg - CTY - Adolygiad o Fand B			
	Rheoli Risg y Gyfarwyddiaeth (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Polisi Disgyblu			
	Absenoldeb Arbennig			
	Rheoli'r Trysorlys			
	Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol – Sicrwydd Cyn Contract			
	Trethiant (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Rheoli Risg Rhaglenni a Phrosiectau (dygwyd ymlaen o 2020/21)			

Barn Archwilio	Maes Archwilio	Argymhellion Risg Uchel		Statws (os nad yw'n Derfynol)
		Cynigiwyd	Cytunwyd	
Annigonol ac angen gwelliant mawr	Milltiredd a Chynhaliaeth (dygwyd ymlaen o 2020/21)	1		Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Datblygu Economaidd – Sicrwydd Cyn Contract	1		
	Addysg a DGO – Sicrwydd Cyn Contract	1		
	CTA - Sicrwydd Cyn Contract	1		
	Adolygiadau Sefydliadol			
	Y Diwydiant Cardiau Talu (dyfeisiau sglodyn a phin) (dygwyd ymlaen o 2020/21)			
	Bws Caerdydd – Perthynas lywodraethu â Chyngor Caerdydd (dygwyd ymlaen o 2020/21)	1	1	
	Addysg – Rheoli Asedau (dygwyd ymlaen o 2020/21)	1	1	
